**Rhif: 1**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C20/0666/32/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **19/08/2020** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Botwnnog** |
| **Ward:** | **Botwnnog** |
| **Proposal:** | **Cais ar gyfr codi adeilad cynhyrchu wyau maes gan gynnwys seiloau a gwaith cysylltiedig** |
| **Lleoliad:** | **Crugeran, Sarn Mellteyrn, Pwllheli, LL53 8DT** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Mae'r cais ar gyfer codi uned amaethyddol i gadw ieir sy'n cynhyrchu wyau maes, codi seiloau a gwaith cysylltiedig ar Fferm Crugeran, Sarn Mellteyrn. Byddai'r sied arfaethedig wedi ei lleoli 20 medr i ffwrdd ac yn paralel i sied ieir presennol sydd ar y safle ac o'r un dyluniad a maint a honno. Byddai'r sied yn mesur oddeutu 135 medr o hyd, 19.5m medr o led, 6.7 medr o uchder i'r brig ac o orffeniad bocs proffil lliw gwyrdd 'juniper'. 2633m² fyddai arwynebedd llawr y sied ac yn cartrefu hyd at 32,000 o ieir dodwy. Byddai'r pedair seilo porthiant oddeutu 6.8 medr mewn uchder ac o liw llwyd las wedi ei lleoli gyfochrog a'r sied gyda llawr caled o amgylch yr holl sied. Bwriedir defnyddio mynedfa bresennol y fferm a'r trac mynediad i'r uned ddofednod bresennol ar gyfer gwasanaethu'r bwriad. Mae Crugeran yn fferm sefydledig yn ffermio bîff, defaid, dofednod a grawn a byddai'r uned arfaethedig yn ychwanegu 32,000 o ieir ychwanegol i'r fenter yn creu cyfanswm o 64, 000 o ieir.

1.2 Gorwedd y safle yng nghefn gwlad oddeutu chwarter milltir o bentref Sarn Mellteyrn ac mae o fewn dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig, Tirwedd Hanesyddol Gofrestredig Llŷn ac Enlli ac oddeutu 1 Km tu allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn. Ceir mynediad i'r safle oddi ar y B4413 sydd yn ffordd ddosbarth 2. Ystâd Tre'r Ddôl yw'r tai agosaf oddeutu 300 metr i'r de o safle'r cais. Ceir sawl Safle Bywyd Gwyllt Arfaethedig yn y cyffiniau hefyd, gyda'r agosaf yn goedwig /prysg llydanddail yn Nhai Lôn oddeutu 300 metr o safle'r sied arfaethedig.

1.3 Cyflwynir y cais i'r Pwyllgor Cynllunio gan ei fod yn ddatblygiad mawr dros 1,000m². Roedd yn ofynnol i'r datblygwyr ymgymryd â phroses Ymgynghoriad Cyn-Cais, gan ymgynghori gyda chyrff perthnasol â'r gymuned ac mae Adroddiad Ymgynghoriad Cyn-Cais wedi ei gyflwyno. Cyflwynwyd y dogfennau canlynol hefyd:

- Datganiad Dylunio a Mynediad
- Cynllun Rheoli Tail (Manure Management Plan)
- Trwydded Amgylcheddol (Environmental Permit)
- Cynllun Rheoli Sŵn (Noise Management Plan)
- A Report on the Modelling of the Dispersion and Deposition of Amonia from the proposed Free Range Egg Laying Chicken houses
- A Dispersion modelling study of the impact of odour from the proposed Free Range Egg Laying Chicken Houses
- Asesiad Effaith Ecolegol (Ecological Impact Assessment)
- Method Statement Pollution Prevention
- Datganiad Iaith Gymraeg

1.4 Mae'r bwriad wedi cael ei sgrinio hefyd ac ni fydd angen Asesiad Effaith Amgylcheddol yn yr achos yma.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

TRA 4: Rheoli ardrawiad cludiant

PS 5: Datblygu Cynaliadwy

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu

PCYFF 2: Meini prawf datblygu

PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

PCYFF 4: Dylunio a Thirweddu

PS 19: Gwarchod a ble'n briodol gwella'r amgylchedd naturiol

AMG 2: Ardaloedd o Dirwedd Arbennig

AMG 5: Cadwraeth Bioamrywiaeth Lleol

PS 20: Diogelu a ble'n briodol gwella asedau treftadaeth

AT 1: Ardaloedd Cadwraeth, Safleoedd Treftadaeth y Byd a Thirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol Cofrestredig

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 11: Sŵn

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Dylunio

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 18: Trafnidiaeth

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Mae hanes Cynllunio i Crugeran ond yr isod sydd yn ymwneud gyda safle’r uned dofednod.

C20/0555/32/SC Barn sgrinio am uned dofednod ar gyfer 32,000 o ieir: – Cadarnhau dim angen Asesiad Effaith Amgylcheddol

C17/0684/32/AC Rhyddhau amod 12 o ganiatâd cynllunio C16/0849/32/LL sy'n gofyn am gyflwyno a chytuno cynllun rheoli pla: Caniatau

C16/1597/32/AC Rhyddhau amodau rhif 3, 4 a 6 o caniatâd rhif C16/0849/32/LL er cadarnhau defnyddiau allanol a manylion tirlunio: Caniatau

C16/0849/32/LL Adeiladu uned ddofednod rhydd a gwaith cysylltiedig: Caniatáu 18 Medi 2017

C16/1022/32/SC Barn sgrinio ar gyfer yr uned dofednod gwreiddiol- Cadarnhau dim angen Asesiad Effaith Amgylcheddol ar 2 Awst 2016

C16/0248/32/YM Ymholiad cyn cais am adeiladu y sied dofednod cyntaf.

C15/1353/32/SC Barn sgrinio ar gyfer uned dofednod – Cadarnhau dim angen Asesiad Effaith Amgylcheddol

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
| --- | --- |
| Cyngor Cymuned/Tref: | Mewn cyfarfod o’r Cyngor a gynhaliwyd neithiwr penderfynwyd cefnogi’r cais. |
| Uned Drafnidiaeth: | Cyfeiriaf at y cais uchod a dymunaf ddatgan na fwriadaf roi argymhelliad gan y tybir na fuasai’r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar unrhyw ffordd, neu ffordd arfaethedig. Mae’r cais wedi’i leoli ar safle ger briffordd dosbarth ‘B’, ac mae’r bwriad yn annhebygol o arwain at gynnydd sylweddol mewn traffig, gyda dim ond ychwanegiad bychan mewn lefelau traffig cysylltiedig wedi’i nodi yn y wybodaeth a gyflwynwyd. |
| Uned Bioamrywiaeth | <u>Sylwadau 13 Hydref 2021</u><br><br>Crynodeb ac Argymhellion Fy mhrif bryderon yw newid cynefinoedd lled-naturiol drwy wasgaru tail, ac o ganlyniad yn gwella'r cynefin o ran amaethyddiaeth a diraddio cynefinoedd a restrir dan adran 7 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac felly'r posibilrwydd o golli cynefin addas i rywogaethau gwarchodedig (Glöyn byw Brith y Gors) a'u metaboblogaethau. Mae hyn yn |

cynnwys fy mhryder am yr effeithiau posib i Safleoedd Bywyd Gwyllt.

Mae angen rhagor o wybodaeth i asesu'r effaith fydd gan y datblygiad arfaethedig yma ar fioamrywiaeth a'r Safleoedd Bywyd Gwyllt.

- Mae angen Asesiad Effaith Ecolegol sy'n cynnwys effaith gwasgaru tail a dwysau amaethyddol ar gynefinoedd lled-naturiol.

- Cynllun Gwella Bioamrywiaeth. Awgrymaf fod hyn yn cynnwys creu gwrychoedd a choridorau bywyd gwyllt o amgylch terfynau'r caeau.

- Cynllun Lliniaru Safle Bywyd Gwyllt.

- Gwybodaeth i hysbysu Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Dylid darparu cynllun ecolegol cyn penderfynu ar y cais.

<u>Sylwadau 22 Mawrth 2021 ar yr Asesiad Effaith Ecolegol</u>

Rwyf yn falch o weld fod yr ymgeisydd wedi darparu'r Asesiad Effaith Ecolegol. Derbyniaf na fydd y bwriad bellach yn cynnwys chwalu unrhyw dail ar y Safleoedd Bywyd Gwyllt arfaethedig na dynodedig. Derbyniaf y bydd y gwaith o ffensio o amgylch y Safle Bywyd Gwyllt arfaethedig yn digwydd, gan greu coridor cynefin i fywyd gwyllt. Derbyniaf y bydd parth clustogi yn cael ei weithredu o amgylch y cyrsiau dŵr yn y ddau safle.

Sylwadau pellach: Safle Crugeran

Ffensio:

- Oherwydd ongl y llethr byddwn efallai wedi disgwyl cael ffens o amgylch y parth clustogi 10m o'r cwrs dŵr, a ddangosir ar y map isod, yn safle Crugeran i atal anifeiliaid rhag mynd i'r dŵr.

- Mae'r cae ar waelod safle Crugeran (ymddiheuriadau - mae'r rhif yn aneglur ar y map) wedi ei ddosbarthu fel 'Cors/Glaswelltir Corsiog' heb ei glustogi o'r caeau cyfagos sef 7553 a 0153 ble fydd tail yn cael ei chwalu:
- Oherwydd bod y cynefinoedd yma'n rai gwlyb carwn eu gweld yn cael eu dynodi gan dderbyn yr un gwarchodaeth â chyrsiau dŵr (h.y. parth clustogi 10m).

<u>Safle Maesog</u>

- Mae'n ymddangos bod y cynefinoedd 'Ffen - Corsle'r Dyffryn' sydd i'w gweld ar hyd ochr Orllewinol y safle wedi cael parth clustogi 10m (Tybiaf fod hyn yn gywir gan nad yw'r map yn Ffigwr 8 yn dangos hyn yn glir gan fod y llinellau yr un trwch, a hefyd mae'r arlliwiau coch yn wahanol).

- Er hynny, mae cae 0787 ar y map (Ffigwr 8 o'r AEA ac isod) i'w weld heb barth clustogi o'i amgylch er iddo gael ei ddosbarthu fel 'Cors/Glaswelltir Corsiog'):
- Mae hyn hefyd yn berthnasol i ran o gae 6768 sydd o dan y cyrsiau dŵr ac yn ffinio â chae 0267, ble bydd chwalu tail yn digwydd.
- Hoffwn weld fod gan y caeau/cynefinoedd hyn barth clustogi 10m o'u hamgylch ar y Mapiau Rheoli Tail.

Mapiau Tail: Hoffwn weld y mapiau yn cael eu hail-lunio i gynnwys yr uchod.

Cynllun Rheoli Tail:

• Nid yw'r sylwadau a ddarparwyd gan Uwch Swyddog Bioamrywiaeth y Cyngor wedi eu cynnwys yn y Cynllun Rheoli Tail: 'Nid yw'r cynllun tail wedi dangos yn glir faint o faw gaiff ei gynhyrchu gan yr ieir. Mae iâr ddodwy ar gyfartaledd yn cynhyrchu 20kg o faw y flwyddyn. Felly, rwyf yn amcangyfrif y bydd 64,000 o ieir yn cynhrychu 1,280,000kg (1280 tunnell) o faw y flwyddyn."

• Bydd angen cynnwys y wybodaeth yma yn y Cynllun Rheoli Tail yn ogystal â faint o'r baw fydd yn cael ei chwalu ar bob safle.

• Awgrymaf yn gryf bod y cynllun yn amlinellu faint o faw fydd yn cael ei wasgaru ar bob cae gyda'r caeau sydd agosaf at y Safleoedd Bywyd Gwyllt dynodedig ac arfaethedig efo llai o faw/tail yn cael ei chwalu arnynt fel gwarchodaeth pellach i fioamrywiaeth.

• Os nad yw eisoes wedi gwneud bydd angen i'r ymgeisydd ofyn am gyngor sgrinio gan Lywodraeth Cymru ar y cynllun tail.

Cynllun Gwella Bioamrywiaeth.:

• I ddilyn ymlaen o sylwadau'r adroddiad Asesiad Effaith Amgylcheddol a'r sylwadau blaenorol a wnaed gan Uwch Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd, bydd dal angen i'r cleient ddarparu'r cynllun yma:

o Gwrychoedd yn cael eu creu o amgylch rhai ochrau caeau gan ddefnyddio rhywogaethau cynhenid (y bydd angen eu rhestru yn y cynllun). Hoffwn weld hyn ynghyd â'r gwaith ffensio a awgrymaf ar safle Crugeran ac ar ochrau a therfynau caeau eraill y ddau safle (yn arbennig gan fod safle Maesog o fewn yr AHNE).

o Hoffwn weld y caeau sydd â chynefin ffen, yn arbennig ar safle Maesog yn cael eu gwella gyda phlanhigion bach Tamaid y Cythraul i wella'r cynefin sy'n addas i löyn byw Brith y Gors.

o Bydd angen cyflwyno'r cynllun yma cyn rhoi caniatâd Cynllunio.

| | |
| --- | --- |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: Sŵn | Diolch i chi am anfon ymateb yr asiant i sylwadau cychwynnol y Gwasanaethau ynghylch y cais hwn.<br><br>Sylwaf fod y datblygiad wedi derbyn caniatâd gan Gyfoeth Naturiol Cymru a bod derbyn y drwydded hon yn awgrymu y bydd arfer gorau yn cael ei gyflogi gan y gweithredwr sy'n ymdrin â'r materion a godwyd gan y Gwasanaeth hwn. Nid yw'n dangos na fydd yr uned yn cynyddu lefel sŵn cefndir yr ardal. Er bod y Drwydded Amgylcheddol yn cynnwys sŵn, arogleuon a llwch, mae'n parhau i fod yn ystyriaeth Gynllunio berthnasol gan nad yw'r amodau yn y drwydded yn ymwneud â cholli amwynder i eiddo preswyl cyfagos. Ni all y gwasanaeth wneud sylwadau os fydd yr uned ychwanegol yn cynyddu lefel y sŵn cefndir gan na chyflwynwyd asesiad sŵn (gan gynnwys y lefelau sŵn a ragwelir o'r safle) i ddangos na fydd y sŵn o'r unedau yn cael effaith negyddol ar dai sensitif i sŵn.<br><br>Oherwydd lleoliad gwledig yr uned, byddem yn argymell y dylid cynnal asesiad sŵn (yn unol â'n sylwadau gwreiddiol) cyn dechrau adeiladu'r uned i sicrhau nad yw'r uned yn cael effaith sŵn ar drigolion cyfagos. Rhaid i sŵn o'r safle beidio â chodi lefelau sŵn cefndir yr ardal; yn unol â'n sylwadau gwreiddiol. Pe bai'r cais yn cael ei ganiatáu, fe'ch cynghorir bod amod yn cael ei roi bod asesiad effaith sŵn i'w gynnal i sicrhau bod peiriannau neu offer gan gynnwys systemau aerdymheru ac awyru (ffannau) yn cael eu gosod neu eu gweithredu mewn cysylltiad â'r bydd cyflawni'r caniatâd hwn yn amgaeedig a / neu wedi'i wanhau fel na fydd y sŵn a gynhyrchir gan weithrediad y peiriannau yn cynyddu'r lefelau sŵn cefndir cyfredol yr ardal yn ystod y dydd, a fynegir fel LA90 [1awr] (yn ystod y dydd 07: 00-23: 00 awr) a / neu (b) LA90 [5 munud] yn ystod y nos (gyda'r nos 23: 00- 07:00 awr) mewn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn gerllaw. Bydd mesuriadau sŵn at ddibenion yr amod hwn yn unol â BS 4142: 2014. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd: Arogleuon ac ansawdd aer: | Mae modelu gwasgariad aroglau wedi'i gynnal sy'n rhagweld na fydd unrhyw dderbynyddion sensitif yn profi crynodiad aroglau uwchlaw'r meincnod a argymhellir ar gyfer arogleuon gweddol sarhaus. Byddem yn argymell y dylid ceisio cyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gynnwys y modelu ac a yw'r crynodiad aroglau wedi ystyried y ddwy sied ddofednod.<br><br>O ran ansawdd aer, mae'r dogfennau a ddarperir (gan AS Modeling & Data LTD, 18 Mawrth 2019) yn ystyried aroglau ac amonia yn unig. Ni ystyriwyd unrhyw asesiad o effaith gronynnau llwch (PM10 a PM2.5). Gofynnwn i'r datblygwr gynnal asesiad i effaith Mater Gronnynnol ar dderbynyddion perthnasol o ganlyniad i'r datblygiad. Dylid asesu hyn gan ystyried Amcanion Ansawdd Aer y DU. |

| Llygrydd | Amcan ansawdd are | Wedi'i fesur fel |
|---|---|---|
| Gronnynau (PM10) (grafimetrig) | 50µg/m3,na ddylid mynd y tu hwnt iddynt fwy na 35 gwaith y flwyddyn | Cymedr 24- awr |
| | 40µg/m3 | Cymedr blynyddol |
| Gronynnau(PM2.5) (grafimetrig) | 25 µg/m3 | Cymedr blynyddol |

Nid yw Atodlen 3 o'r Drwydded Amgylcheddol yn nodi unrhyw derfynau ar gyfer allyriadau Gronnynau (Particles PM10 & PM2.5), felly rydym yn dymuno i'r datblygwr gynnal asesiad i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch hyn.

Uned Draenio Tir (Ymgynghoriaeth Gwynedd): Heb eu derbyn.

Uned Iaith a Chraffu: Dim sylwadau gan yr Uned Iaith ar y cais hwn. Byddai wedi bod yn dda gweld amcan o nifer y swyddi y rhagwelir y gellir eu hychwanegu at y gweithlu presennol drwy'r ehangiad, ond rydym yn cydnabod bod yr ymgeisydd yn gyflogwr i nifer o bobl leol yn barod, ac y byddai amrywiaeth o gyfleoedd yn cael eu cynnig, ac felly nid oes rheswm i amau y byddai unrhyw swyddi newydd posib yn cael unrhyw effaith negyddol ar y gymuned a'r iaith Gymraeg.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Diolch am ymgynghori gyda ni ar y cais uchod, a dderbyniwyd gennym ar 1 Medi 2020. Nid oes gennym unrhyw wrthwynebiad i'r cais, ond mae gennym y sylwadau isod:

Atal Llygredd

Mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno Cynllun Draenio Safle, Cynllun Amrediad Ardal a Map Rheoli Tail. Mae'r ymgeiswyr wedi dangos y bydd gan y datblygiad arfaethedig system ddraenio dŵr budr addas, a bod yr ardal amrediad a'r ardaloedd rheoli/chwalu tail wedi cynnwys stribedi clustogi addas i'r dyfroedd a reolir. Rydym yn fodlon gyda'r dogfennau hyn. Er mwyn leihau'r cyfaint o slyri a gynhyrchir rydym yn argymell rhoi to ar y storfa dail.

Safleoedd Gwarchodedig ac Allyriadau i'r Awyr

Rydym wedi adolygu'r Adroddiad Modelu Manwl (AS Modelling & Data Ltd, 18 Mawrth 2019) a gyflwynwyd i gefnogi'r bwriad yma. Gall unedau amaethyddol dwys effeithio ar safleoedd gwarchodedig drwy allyriadau yn yr awyr (dyddodiad amonia a nitrogen). Rydym wedi asesu'r effaith y gall uned ei chael ar ansawdd yr aer ar safleoedd Ewropeaidd a Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) gyda phellter sgrinio o 5km o'r uned. Mae'r crynodiadau amonia cefndirol (cymedr blynyddol) yn yr ardal o amgylch safle yr uned ddofednod arfaethedig a'r safleoedd bywyd gwyllt yn 0.95µg/m3.

Mae'r gyfradd dyddodiad nitrogen cefndirol i goetir yn 16.94kgN/ha/yr ac i lystyfiant byr yn 9.94kgN/ha/yr. Ffynhonnell y wybodaeth yma yw'r System Gwybodaeth Llygredd Aer (APIS).

Cyflwynwyd Trwydded Amgylcheddol, cyfeirnod EPR/BB3699CR am uchafswm o 64,000 o ieir dodwy wyau'r maes i'r safle ar 12/06/2020. Yn dilyn adolygu dogfennau'r cais, adroddiad modelu manwl a'r drwydded amgylcheddol sy'n bodoli, rydym yn fodlon bod y broses o gyfraniadau dyddodion amonia a nitrogen o'r uned arfaethedig o dan y trothwyon a ddefnyddiwn yn ein hasesiad am effeithiau posib ar Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSIs) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA).

Perygl Llifogydd

Mae safle'r cais yn gorwedd ym Mharth A o'r Mapiau Cyngor Datblygu (DAM) sydd wedi eu cynnwys yn TAN 15 Datblygiadau a Pherygl Llifogydd (Gorffennaf 2004).

Mae TAN 15 yn cynghori, i ddatblygiad a leolir ym Mharth A, nad yw prawf cyfiawnhau yn gymwys ac mae gofynion dŵr wyneb yn gymwys. Y meini prawf derbynioldeb yw nad oes unrhyw gynnydd mewn llifogydd i ddigwydd mewn man arall o ganlyniad i'r datblygiad. O ystyried lleoliad y datblygiad ym Mharth A, rydym yn cynghori y dylid asesu y gofynion dŵr wyneb. Nodwn mai mater i Adran Draenio Tir eich Awdurdod yw rhoi sylwadau ar addasrwydd y cynigion hyn.

Dylech hefyd drafod sianelu'r cwrs dŵr gyda Adran Draenio Tir eich Awdurdod, sy'n gweithredu fel yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol, gan ei bod yn debygol bod angen Caniatâd Draenio Tir i sianelu'r 'cwrs dŵr cyffredin', uwchben ble lleolir yr uned.

Rhywogaethau wedi eu gwarchod

Rydym yn nodi nad oes unrhyw wybodaeth ynghylch rhywogaethau gwarchodedig gyda'r cais, ac felly, rydym yn tybio bod eich Awdurdod wedi sgrinio'r cais ac wedi casglu nad oes tebygolrwydd

rhesymol bod rhywogaethau gwarchodedig yn bresennol.

Materion Eraill

Mae ein sylwadau uchod yn ymwneud yn benodol â materion sydd wedi'u cynnwys ar ein rhestr wirio yn unig, Development Planning Advisory Service: Consultation Topics (Medi 2018), sydd wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan. Nid ydym wedi ystyried yr effeithiau posib ar faterion eraill ac nid ydym yn diystyru'r posibilrwydd y bydd y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fuddion eraill. Cynghorwn yr ymgeisydd ei fod yn gyfrifol, yn ogystal â chael chaniatâd cynllunio, am sicrhau ei fod yn cael pob hawlen/caniatâd/trwydded sy'n berthnasol i'r datblygiad. Cyfeiriwch at ein gwefan i gael rhagor o fanylion.

Dŵr Cymru: Dim sylwadau i'w cynnig ar y cais.

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd yn y wasg, ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae'r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben. Derbyniwyd un llythyr / gohebiaeth gyda sylwadau ar y cais:

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

- Wedi datgan pryder am effaith gweledol yr uned ddofednod wreiddiol ond yn ystyried ei fod llai ymwthiol na ragwelwyd.
- Rhes o goed ar y ffin de-ddwyreiniol ddim yn sgrinio'r strwythur o'r ffordd B4413 eto.
- Lleoliad y bwriad wedi ei sgrinio i raddau gan y sied bresennol a natur y dirffurf – ddim yn ystyried byddai effaith gweledol sylweddol.
- Ddim yn ymwybodol o unrhyw bryderon lleol am y bwriad.
- Pryder am effaith amgylcheddol yr unedau dofednod a gollyngiad amonia a nitrogen yn sgil gwasgaru'r tail.
- Nodi bod CNC wedi caniatáu Trwydded amgylcheddol.
- Nodi hefyd bod Uned Bioamrywiaeth wedi datgan pryder am effaith gwasgaru tail ar fioamrywiaeth a dirywio cynefinoedd – posib croes i bolisi AMG5
- Angen ystyried effaith gronnol y datblygiad cyn caniatáu mwy o unedau.

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae'r safle wedi ei leoli tu allan i unrhyw ffin datblygu fel y diffinnir gan y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) felly yn safle cefn gwlad agored. Datgan polisi PCYFF 1 y gwrthodir cynigion tu

allan i ffiniau datblygu, oni bai bod polisi penodol o fewn y Cynllun neu bolisi cenedlaethol yn dangos bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol. Nid oes polisi penodol yn y CDLl yn ymwneud a datblygiadau amaethyddol, felly y brif ystyriaeth yw polisi Cenedlaethol Polisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy.

5.2 Datgan Paragraff 5.6.6 o Bolisi Cynllunio Cymru er y dylid diogelu cefn gwlad agored lle bo'n bosibl, dylai ehangiad busnesau presennol sydd wedi'u lleoli yng nghefn gwlad agored gael ei gefnogi, cyn belled nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol. Mae'n ymhelaethu ym mharagraff 5.6.8 y dylai awdurdodau cynllunio fabwysiadu ymagwedd adeiladol at gynigion datblygu amaethyddol, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion mewn perthynas â newid mewn ymarferion ffermio.

5.3 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 6: Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy yn hybu dyfodol cynaliadwy a phroffidiol i deuluoedd ffermio a busnesau drwy gynhyrchu a phrosesu cynnyrch fferm ar yr un pryd â diogelu'r amgylchedd, iechyd a lles anifeiliaid, addasu i newid hinsawdd a lliniaru ei effeithiau, gan gyfrannu at fywiogrwydd a ffyniant cymunedau gwledig. Mae'r Canllaw yn nodi, fel rheol dylai adeiladau newydd fod yn rhan o grŵp a dylid sicrhau perthynas rhwng eu lliw a'u maint ag adeiladau sy'n bodoli eisoes.

5.4 Yn yr achos yma, mae'r sied arfaethedig yn ehangiad o fusnes teuluol presennol sydd ag oddeutu 289.55 hectar ac yn ffermio gwartheg, defaid, grawn ac yn fwy diweddar ieir ar gyfer cynhyrchu wyau. Byddai'r sied arfaethedig wedi ei lleoli yn agos i'r sied ieir bresennol, sydd o'r union faint, graddfa a dyluniad a'r bwriad. Ystyrir fod y sied yn rhesymol angenrheidiol ar gyfer diben amaethyddiaeth i ehangu'r busnes ac nid oes amheuaeth bod ei leoliad cefn gwlad yn hanfodol o fewn iard y fferm sefydledig. Mae'r bwriad felly yn cyd-fynd ac egwyddorion PCC a TAN 6 cyn belled nad oes unrhyw effeithiau annerbyniol yn sgil y bwriad.

**Mwynderau gweledol**

5.5 Byddai'r adeilad arfaethedig o faint sylweddol, yn mesur 135 medr o hyd, 19.5m medr o led, 6.7 i'r brig gydag arwynebedd llawr o 2633m². Fel y soniwyd eisoes, byddai'r adeilad arfaethedig o'r union edrychiad, maint, lliw ac ongl gosodiad a'r sied bresennol gyda bwlch o 20 medr yn eu gwahanu. Mae'r sied ieir bresennol yn gorwedd yn gymharol isel yn y dirwedd, heb ymddangos yn ymwthiol nac allan o le o fewn Ardal Tirwedd Arbennig. Oherwydd ei osodiad cymharol wastad o fewn tirwedd donnog, dim ond golygfeydd ysbeidiol sydd o'r sied bresennol o'r dirwedd gyfagos, megis o'r ffordd sirol y B4413 o gyfeiriad Botwnnog. Byddai'r sied arfaethedig wedi ei leoli i'r gogledd orllewin o'r presennol, felly byddai'r sied bresennol yn ei sgrinio i raddau o'r golygfeydd amlycaf. Roedd amod ar y cais blaenorol yn nodi bod angen tirlunio ochr dwyreiniol y sied ac mae tystiolaeth bod hynny wedi digwydd, ond gwerthfawrogir bod angen ychydig o amser i sefydlu.

5.6 Mae'n anorfod bod datblygiad o'r fath yn mynd i fod yn weladwy o diroedd uwch, megis o Fynydd Rhiw sydd o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, fodd bynnag mae siediau amaethyddol yn nodwedd arferol yn y cyffiniau. O olygfeydd ehangach, ymddengys y sied bresennol fel petai wedi ei suddo yn isel i'r dirwedd, gyda'r gorffeniad lliw gwyrdd tywyll yn integreiddio'n dda i'w gefndir gwledig. Ar sail hynny, ystyrir y byddai'r sied arfaethedig yn cymryd ei le hefyd, gyda chysylltiad gweledol gyda'r fferm yn golygu na fyddai'r sied

ychwanegol yn taro llygaid. Ni ystyrir y byddai'r bwriad yn cael effaith sylweddol niweidiol ar gymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyfagos, nac yn difetha prydferthwch Ardal Tirwedd Arbennig y saif ynddo. Mae tirlunio wedi ei gyflawni a rhagwelir bydd ansawdd gweledol y safle yn gwella mewn amser unwaith y sefydlir. Credir fod amod tirlunio pellach yn rhesymol hefyd o ystyried graddfa fawr y datblygiad. Ystyrir felly fod dyluniad y sied a'i effaith gweledol yn dderbyniol yng nghyd destun polisïau PS 5, PCYFF 3, PCYFF 4, PS 19 ac AMG 2 CDLl.

5.7 Saif y daliad o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli hefyd. Byddai'r bwriad yn ychwanegu adeilad amaethyddol ynghyd a gwaith cysylltiedig i'r dirwedd. Fodd bynnag, ni ystyrir y byddai'n cyfaddawdu unrhyw asedau treftadaeth na nodweddion hanesyddol yn y gosodiad arfaethedig felly yn dderbyniol o agwedd polisi PS 20 ac AT 1 CDLl.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.8 Ceir rhai tai annedd yng nghyffiniau'r cais, sef rhes Tre'r Ddol a dderbyniodd ymgynghoriad ar y cais ac sydd oddeutu 315 medr i'r de, ac mae'r tŷ agosaf ym mhentref Sarn oddeutu 470m i'r gogledd orllewin o'r safle. Mae polisi PCYFF 2 CDLl yn ystyriaeth yma sy'n datgan y dylid gwrthod cynigion os fyddant yn cael effaith sylweddol andwyol ar iechyd, diogelwch, mwynderau meddianwyr lleol, aflonyddwch, sŵn, llwch a llygredd. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y trigolion lleol i'r bwriad, sy'n gadarnhaol. O ran effaith ar feddianwyr lleol, ni ragwelir gwahaniaeth arwyddocaol mewn aflonyddwch yn wahanol i'r hyn a brofir yn byw gerllaw fferm weithredol bresennol ac mae natur donnog y dirffurf, cloddiau a phellter rhesymol yn cynnig ychydig o warchodaeth.

5.9 O ran effaith sŵn, rhaid cofio bod un sied ieir bresennol ar y safle a byddai ail sied yn cyflwyno ffynhonnell sŵn cefndirol arall i'r ardal. Nodir yn y wybodaeth ar y cais y byddai'r sied yn cynnwys ffaniau awyru mecanyddol fydd yn rheoli tymheredd yr adeilad ac yn tueddu i weithredu'n amlach yn ystod tywydd poeth. Ymgynghorwyd gydag Uned Gwarchod y Cyhoedd y Cyngor ynglŷn â'r materion Sŵn ac nid oeddent yn ystyried fod y Cynllun Rheoli Sŵn a dderbyniwyd yn ddigonol. Fe argymhellir, oherwydd lleoliad gwledig yr uned, y dylai Asesiad Sŵn gael ei gynnal a'i gytuno cyn dechrau adeiladu'r uned i sicrhau nad yw'r uned yn cael effaith sŵn ar drigolion cyfagos na chodi lefelau sŵn cefndirol yn annerbyniol yn yr ardal. Gofynnir felly, pe caniateir y cais fod amod yn cael ei gynnwys fod Asesiad Effaith Sŵn i'w gynnal i sicrhau bod peiriannau neu offer, gan gynnwys systemau aerdymheru ac awyru (ffannau), sy'n cael eu gosod neu weithredu yn amgaeedig neu wedi'i wanhau, fel na fydd y sŵn a gynhyrchir gan weithrediad y peiriannau yn cynyddu'r lefelau sŵn cefndir cyfredol yr ardal yn ystod y dydd a nos. Fe nodir fel LA90 [1awr] (yn ystod y dydd 07: 00-23: 00 awr) a / neu (b) LA90 [5 munud] yn ystod y nos (gyda'r nos 23: 00- 07:00 awr) mewn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn gerllaw. Bydd mesuriadau sŵn at ddibenion yr amod hwn yn unol â BS 4142: 2014. Hysbyswyd yr asiant o sylwadau Uned Gwarchod y Cyhoedd fod amod Asesiad Sŵn yn ofynnol, ac mae'r asiant yn fodlon a ffyddiog y bydd y lefelau sŵn yn dderbyniol ac yn cydymffurfio. Ni ystyrir fod amod oriau gweithredu yn rhesymol i'w gosod ar fferm weithredol a byddai'n anodd ei blismona.

5.10 O ran mesurau atal arogleuon a llygredd, cyflwynwyd Cynllun Draenio, Cynllun Rheoli Tail, Adroddiad Modelu Gwasgariad a Dyddodiad Amonia ac Astudiaeth effaith Gwasgariad arogleuon fel rhan o'r cais. Yn fras, bydd yr adeilad yn cynnwys tanciau tanddaearol i gasglu dŵr budr a gweithredu system aml reng (multi-tier) fel y sied bresennol, fydd yn galluogi tail i

ddisgyn i'r llawr i gludfelt (conveyor belt) fydd yn symud tail o'r adeilad (bob 3-4 diwrnod). Bydd y dŵr budr a'r tail wedyn yn cael ei ddosbarthu yn uniongyrchol ar dir y fferm neu yn cael ei gludo i storfa slyri/tail dan do 'r fferm. Ychydig iawn o dail fydd yn cael ei storio yn yr adeilad gan arwain at leihau gweithgaredd pla. Mae'r potensial y bydd tail yn casglu wedi'i liniaru hefyd gan fod gan yr ieir ryddid a mynediad i'r caeau cyfagos. Mae rheoliadau yn eu lle i sicrhau fod datblygiadau o'r math yma yn cael eu cwblhau a'u gweithredu mewn modd addas er osgoi drwg effeithiau. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cadarnhau eu bod yn fodlon gyda'r ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig. Ymddengys bod Trwydded Amgylcheddol am 64,000 o ieir maes wedi cael ei ganiatáu gan CNC eisoes a bod allyriadau'r sied arfaethedig yn is na'r trothwyon niweidiol. Nodir fod yr Uned Gwarchod y Cyhoedd, sy'n ymwneud a llygredd fodd bynnag yn datgan fod yr asesiad a gyflwynwyd ddim ond yn asesu aroglau ac amonia yn unig. Ar sail hynny, gofynnir bod amod yn cael ei gynnwys pe caniateir y cais fod Asesiad i effaith Mater Gronynnol Llygredd ar dderbynyddion perthnasol o ganlyniad i'r datblygiad yn cael ei gyflwyno.

5.11 Ar sail ymatebion Chyfoeth Naturiol Cymru ac argymhellion Uned Gwarchod y Cyhoedd ystyrir fod modd cynnwys amodau priodol i sicrhau na fydd effaith andwyol sylweddol ar iechyd a mwynderau trigolion lleol yn ymwneud a rheoli sŵn a llygredd. Ceir rheoliadau amgylcheddol eraill hefyd tu hwnt i reolau cynllunio, sy'n sicrhau fod datblygiadau yn gweithredu mewn modd addas er osgoi drwg effeithiau. Gyda'r amodau a argymhellwyd, ystyrir fod y bwriad yn gallu bod yn dderbyniol o agwedd gwarchod mwynderau ac ansawdd yr amgylchedd fyddai'n cwrdd â gofynion polisïau PS 5 a PCYFF 2 CDLl.

**Materion trafnidiaeth a mynediad**

5.12 Bwriedir defnyddio mynedfa gerbydol y fferm oddi ar ffordd sirol dosbarth 2 y B4413 a'r trac sy'n arwain fyny trwy'r buarth i'r sied ieir bresennol ar gyfer y datblygiad. O ran patrymau trafnidiaeth, fel y sied ieir bresennol, bydd disgwyl bod lori HGV yn dod draw 2/3 gwaith y mis i gludo bwyd i'r ieir. Bydd wyau'n cael eu casglu bob 3 diwrnod a loriau yn cario ieir newydd bob rhyw 13 mis. Ac eithrio hynny bydd mynd a dod dyddiol gan weithwyr y fferm. Derbyniwyd sylwadau'r Uned Drafnidiaeth ar y bwriad yn datgan nad oedd ganddynt wrthwynebiad ac mai dim ond ychwanegiad bychan mewn lefelau traffig a ragwelir. Ystyrir fod y bwriad felly yn dderbyniol o ran diogelwch ffyrdd ac y byddai digon o le parcio a throi o fewn yr iard gyfagos. Ystyrir y bwriad yn dderbyniol felly o ran Polisïau TRA 2 a TRA 4 CDLl.

**Materion bioamrywiaeth**

5.13 Byddai'r sied wedi ei osod ar ran o gae amaethyddol sy'n laswelltir wedi ei wella. Ceir dynodiadau Safleoedd Bywyd Gwyllt Lleol dros 300m i'r dwyrain a dros 300m i'r gorllewin o safle'r cais, felly fe ymgynghorwyd gyda'r Uned Bioamrywiaeth er mwyn asesu os fydd unrhyw niwed iddynt. Roedd eu sylwadau cychwynnol yn gofyn bod Asesiad Effaith Ecolegol yn cael ei gyflwyno, fyddai'n cynnwys effaith unrhyw wasgaru tail ar y safleoedd bywyd gwyllt. Derbyniwyd yr Asesiad yn ddiweddarach ac ail ymgynghorwyd gyda'r Uned Bioamrywiaeth ar y wybodaeth ychwanegol. Mae'r mesurau gwarchod y safleoedd bywyd gwyllt yn cynnwys ffensio o amgylch y dynodiad, creu coridor bywyd gwyllt a pharth gwarchod 10m o amgylch y cyrsiau dŵr. Mae'r Swyddog yn argymell rhai mesurau ychwanegol i warchod y tir hefyd ynghyd â'r angen i ddiwygio'r Cynllun Rheol Tail i sicrhau fod llai o dail yn cael ei wasgaru ger y safleoedd bywyd gwyllt. Mae'r Uned Bioamrywiaeth yn gofyn bod Cynllun Gwella Bioamrywiaeth yn cael ei gyflwyno hefyd, fyddai'n cynnwys plannu gwrychoedd cynhenid o amgylch rhai o ffiniau'r caeau a phlannu planhigion addas ychwanegol yn y tiroedd corslyd i ddenu gloÿnnod byw a bywyd gwyllt. Derbyniwyd cadarnhad gan yr asiant eu bod yn fodlon cyflwyno Cynllun Gwella a

dilyn argymhellion Bioamrywiaeth. Mae polisi AMG 5 yn nodi dylai cynigion warchod a lle'n briodol, gwella bioamrywiaeth sydd wedi eu adnabod yn bwysig i'r ardal leol. O ystyried maint sylweddol y datblygiad, ystyrir fod y gofynion yr Uned Bioamrywiaeth yn rhesymol a chyfiawnhad dros osod amodau awgrymir i warchod a gwella bywyd gwyllt y safle. Gyda'r amodau ystyrir fod y bwriad yn dderbyniol o agwedd polisi PS 19 ac AMG 5 CDLL.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion perthnasol gan gynnwys polisïau a chanllawiau chenedlaethol a lleol, ynghyd â'r ymatebion dderbyniwyd yn dilyn y broses ymgynghori, credir fod y bwriad fel y'i cyflwynwyd yn dderbyniol yn ddarostyngedig i gynnwys yr amodau isod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol:

1. Cychwyn o fewn 5 mlynedd.
2. Unol a'r cynlluniau.
3. To a waliau allanol i fod o liw gwyrdd tywyll i gydweddu'r sied bresennol
4. Lliw y biniau porthiant i gydweddu'r rhai presennol.
5. Defnydd amaethyddol o'r adeilad yn unig.
6. Cyflwyno cynllun tirlunio
7. Cyflwyno Asesiad Effaith Sŵn cyn dechrau'r datblygiad
8. Cyflwyno Asesiad i Effaith Mater Gronynnol Llygredd cyn dechrau'r datblygiad
9. Cyflwyno Cynllun Gwella Bioamrywiaeth cyn dechrau'r datblygiad
10. Cyflwyno Cynllun Rheoli Tail diwygiedig cyn dechrau'r datblygiad